OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 No. 120

# Gorchymyn Niwsansau Statudol (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2007

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Niwsansau Statudol (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2007.

(2) Daw erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn i rym ar 30 Ionawr 2007.

(3) Daw erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn a'r Atodlen iddo i rym ar 31 Ionawr 2007.

(4) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

**Dynodi "camp berthnasol"**

**2.** Dynodir camp sy'n ymddangos yn y rhestr o gampau a geir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn "gamp berthnasol" at ddibenion adran 80(8A) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990(**1**).

**Diwygio Gorchmyn Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 (Cychwyn Rhif 2, Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion (Cymru) 2006**

**3.** Diwygir Gorchymyn Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 (Cychwyn Rhif 2, Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion (Cymru) 2006(**2**) fel a ganlyn—

(a) yn y testun Cymraeg yn y pennawd i erthygl 5 yn lle "2006" rhodder "2007";

(b) yn y testunau Cymraeg a Saesneg yn y geiriau agoriadol yn erthygl 5 yn lle "2006" rhodder "2007";

(c) yn y testunau Cymraeg a Saesneg o'r pennawd i erthygl 6 yn lle "2006" rhodder "2007";

(ch) yn y testunau Cymraeg a Saesneg yn y geiriau agoriadol yn erthygl 6 yn lle "2006" rhodder "2007";

(d) yn y testun Cymraeg yn lle'r pennawd I erthygl 7 rhodder—

> "Darpariaethau yn Neddf 2005 sy'n dod i rym ar y dyddiad y daw erthygl 2 o Orchymyn Niwsansau Statudol (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2007 a'r Atodlen'r Gorchymyn hwnnw i rym";

(dd) yn y testun Saesneg yn lle'r pennawd i erthygl 7 rhodder—

> "Provisions of the 2005 Act coming into force on the date on which article 2 of, and the Schedule to, the Statutory Nuisances (Miscellaneous Provisions) (Wales) Order 2007 come into force";

(e) yn y testun Cymraeg yn ngeiriau agoriadol erthygl 7 yn lle'r geiriau "Gorchymyn Niwsansau Statudol (Goleuo Artiffisial) (Dynodi Campau Perthnasol) (Cymru) 2006" rhodder "erthygl 2 o Prchymyn Niwsansau Statudol (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2007 a'r Atodlen i'r Gorchymyn hwnnw";

(**1**) Mewnosodwyd adran 80(8A) gan adran 103(3) o Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005.
(**2**) O.S. 2006/2797 (Cy. 236) (C. 93).

(f) yn y testun Saesneg yng ngeiriau agoriadol erthygl 7 rhodder y geiriau "article 2 of, and the Schedule to, the Statutory Nuisances (Miscellaneous Provisions) (Wales) Order 2007" yn lle'r geiriau "the Statutory Nuisance (Artificial Lighting) (Designation of Relevant Sports) (Wales Order 2006";

(ff) yn y testun Cymraeg o erthygl 10(1) yn lle "â rheoliad" rhodder "ag erthygl";

(g) yn nhestun Saesneg erthygl 10(1) yn lle "regulation" rhodder "article".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**)

*D. Elis-Thomas*

23 Ionawr 2007 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**3**) 1998 p. 38.